Adolygiad blynyddol Gweithio i aelodau 2008/09

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Mike Ponton, Cyfarwyddwr

Bu'r deuddeg mis diwethaf yn un o'r cyfnodau mwyaf heriol a chyffrous i mi eu profi yn fy amser gyda Chydffederasiwn GIG Cymru, ac yn wir, i GIG Cymru ei weld erioed.

Mewn amgylchedd ariannol anodd, gyda'r her ariannol yn dwysau a'r galw'n cynyddu, rydym wedi gweithio'n galetach byth i gyflawni ein nod o gefnogi ein haelodau, dylanwadu ar bolisi iechyd, hysbysu'r drafodaeth gyhoeddus a chysylltu arweinwyr iechyd drwy rwydweithio a rhannu gwybodaeth.

Drwy gydol y cyfnod hwn o newid, bu Cydffederasiwn GIG Cymru yn arwain yn y broses ad-drefnu, gan gasglu barn ein haelodau a chadw perthynas gref gyda rhanddeiliaid allweddol i lunio'r cynigion terfynol.

Ar yr un pryd, bu newid sylweddol yn y Cydffederasiwn ei hunan, wrth i ni addasu'r ffordd y gweithiwn i gyd-fynd â'r newid yn y tirlun a sicrhau ein bod yn parhau i ragweld a diwallu anghenion ein haelodau.

Rydym wedi ehangu ein hamrediad o sgiliau ac arbenigedd drwy sefydlu Uned Cyflogwyr GIG Cymru, sydd eisoes wedi creu presenoldeb cryf o fewn y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu gwasanaethau newydd i aelodau, yn cynnwys mwy o gefnogaeth gorfforaethol a gwaith cyfryngau.

Daw'r Adolygiad Blynyddol diweddaraf hwn ar ddiwedd fy nghyfnod gyda Chydffederasiwn GIG Cymru, a bu'n fraint enfawr i ddal swydd Cyfarwyddwr ac arwain y tîm ar y cyfan a gyflawnwyd gennym yn ystod y deuddeg mis diwethaf a thu hwnt. Ein cryfder bob amser fu ein gallu unigryw i roi llais Cymru-gyfan gwrthrychol a chydweithredol ar gyfer rheolwyr y GIG.

Ein nod yw bod yn sefydliad y mae aelodau yn falch i fod yn rhan ohono, ac i weithio mewn ffordd sy'n hybu hyder y cyhoedd yn y GIG yng Nghymru a'i reolwyr.

Gobeithiaf y bydd yr adolygiad hwn yn rhoi trosolwg defnyddiol i chi o'n gwaith a'r hyn a gyflawnwyd gennym drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i bawb ohonoch am eich cefnogaeth barhaus.

Yr hyn a wnawn

Cysylltu

Deuwn â phobl ynghyd o bob rhan o'r GIG ac o'r gymuned iechyd yn ehangach, gan helpu i gryfhau'r berthynas sydd mor hanfodol wrth wella iechyd a darparu gofal iechyd.

Yn ein gwaith polisi a dylanwadu edrychwn am syniadau a gwybodaeth y tu allan i'r ffynonellau arferol, gan gysylltu pobl gyda'r syniadau diweddaraf a'r gwersi y medrir eu dysgu, er enghraifft, o wledydd eraill.

Dylanwadu

Mae dylanwadu yn greiddiol i'n gwaith. Ar faterion allweddol sy'n effeithio ar ein haelodau, sicrhawn bod gwneuthurwyr penderfyniadau a myfyrwyr barn yn llwyr ymwybodol o'r ffeithiau, ac am farn ein haelodau.

Gweithiwn hefyd i ddylanwadu ar gyfeiriad cyffredinol y drafodaeth ar iechyd yng Nghymru, er enghraifft drwy gadarnhau'r neges fod yn rhaid i'r GIG drawsnewid ei wasanaethau i gadw lan gyda byd sy'n newid yn gyflym.

Yr ydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda gwleidyddion amlwg yng Nghymru a San Steffan, yn cynnwys: Prif Weinidog Cymru, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Aelodau Seneddol o Gymru ac Aelodau Cynulliad. Gweithiwn hefyd gyda'r cyfryngau, gan roi sylwadau a gwybodaeth gefndir ar brif straeon iechyd, a rhoi sylw i enghreifftiau o waith da gan ein haelodau.

Cefnogi

Mae darparu cefnogaeth ymarferol i'n haelodau yn rhan gyfannol o'n gwaith. Un ffordd y gwnawn hyn yw drwy drefnu digwyddiadau ar faterion pwysig sy'n effeithio arnynt – er enghraifft, ein digwyddiad dysgu ar ddiwygiadau iechyd yn Seland Newydd.

Mae'r papurau gwybodaeth a gynhyrchwn ar faterion cyfoes, megis adolygiad llenyddiaeth o destunau ar reoli newid, yn helpu i gefnogi gwaith aelodau ar lefel leol.

Mae ein gwasanaethau cymorth corfforaethol hefyd yn rhoi llawer iawn o gefnogaeth ymarferol i'n haelodau, gan ddod â hwy ynghyd ar gyfer cyfarfodydd Cymru-gyfan, sy'n helpu i rannu gwybodaeth a chreu consensws.

Hysbysu

Mae ein gwaith yn hysbysu gwahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd. Mae ein bwletin rheolaidd, Bay Watch, yn rhoi gwybodaeth i aelodau am y datblygiadau diweddaraf mewn iechyd yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Reportage yn rhoi diweddariad chwarterol am newyddion cysylltiedig ag iechyd o Ewrop. Mae crynodebau wythnosol yn y wasg yn helpu i sicrhau fod ein haelodau yn gwybod am y straeon iechyd diweddaraf yn y wasg yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

Rydym yn helpu i hysbysu'r drafodaeth gyffredinol ar iechyd drwy ddarnau sylweddol o waith megis Ysbyty yn y Cartref, a ddangosodd faint o ofal iechyd y medrir ei ddarparu y tu allan i ysbyty. Mae ein papurau gwybodaeth hefyd yn hysbysu gwneuthurwyr penderfyniadau a ffurfwyr barn ar rai o faterion allweddol y dydd. Mae ein Bwletin rheolaidd yn rhoi gwybodaeth i aelodau am ein gwaith ar eu rhan.

Mae ein gwefan www.welshconfed.org yn cynnwys ein holl gyhoeddiadau yn ogystal â dogfennau iechyd allweddol eraill a dolenni i ystod eang o safleoedd iechyd.

Gweithio i Aelodau 2008/09 - Uchafbwyntiau

Uned Cyflogwyr

Mae Uned Cyflogwyr newydd GIG Cymru, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Kate Watkins wedi ymestyn ein rôl yn GIG Cymru yn sylweddol, ac wedi'n galluogi i gynnig arbenigedd ym meysydd penodol adnoddau dynol a datblygu'r gweithlu.

Mae'r Uned yn cydlynu ac yn cynrychioli diddordebau sefydliadau GIG fel cyflogwyr, gan weithredu fel eu llais mewn trafodaethau a negodiadau y tu mewn i Gymru a hefyd ar lwyfan y Deyrnas Unedig.

Mae'r Uned yn cynnal ymchwil ac yn rhoi sylwadau ar faterion gweithlu sydd ar y gorwel, gan ganolbwyntio ar y newidiadau hanfodol sydd eu hangen i'r gweithlu presennol i ateb heriau cyfeiriad strategol newydd i'r GIG yng Nghymru.

Ad-drefnu

Buom yn arwain yn y broses ailstrwythuro o'r cychwyn cyntaf dros flwyddyn yn ôl. Bu gennym rôl sylweddol wrth helpu i lunio'r cynigion terfynol, casglu barn ein haelodau a chynnal rhaglen o gysylltiadau gydag uwch bersonél yn y Cynulliad drwy gydol y broses.

Mae sesiynau a phapurau gwybodaeth i Aelodau Cynulliad, wedi eu targedu ac yn amserol i gyd-fynd â'r materion cyfoes, wedi sicrhau fod gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol wedi rhoi ystyriaeth i sylwadau ein haelodau. Mae llawer o ganlyniadau'r ad-drefnu yn adlewyrchu'n uniongyrchol y sylwadau a gafodd eu bwydo i'r broses gan Gydffederasiwn GIG Cymru.

Datblygu bwrdd

Yn awr fod y strwythurau newydd yn eu lle, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi a datblygu'r arweinwyr newydd ar gyfer GIG Cymru drwy ein sesiynau datblygu bwrdd. Cynlluniwyd y sesiynau i hysbysu cadeiryddion, prif weithredwyr ac aelodau nad ydynt yn swyddogion am y materion allweddol sy'n effeithio ar eu gwaith - yn cynnwys llywodraethu, y fframwaith cyfreithiol a'r berthynas rhwng y Byrddau Iechyd Lleol newydd a llywodraeth. Mae'r sesiynau hyn yn gychwyn proses barhaus a fydd yn ein gweld yn cymryd rôl ganolog yn natblygiad arweinwyr GIG Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Canllawiau llywodraethu

Gyda sefydliadau GIG integredig newydd sbon gyda chyllidebau mawr, gweithluoedd enfawr a chyfrifoldebau pellgyrhaeddol, mae egwyddorion llywodraethu da yn bwysicach nag erioed. Daethom ynghyd â detholiad eang o gyngor, help ymarferol a chanllawiau ar wefan lywodraethu newydd i helpu aelodau i fynd i'r afael gyda beth yw llywodraethu, a sut i'w wneud yn dda. Cefnogir y wefan gan lyfr poced llai, sydd ill dau yn llawn cyfeiriadau at astudiaethau manwl a ffynonellau gwybodaeth bellach. Mae penawdau megis Gwella Effeithlonrwydd y Bwrdd a Deall Rôl Ddeuol Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn anelu i roi cefnogaeth ymarferol mewn ffurf hylaw.

Cynhadledd Flynyddol Cymru

Yr adborth o'n cynhadledd y llynedd oedd y mwyaf cadarnhaol eto, gyda rhaglen lawn wedi sicrhau bod nifer dda'n bresennol drwy gydol y gynhadledd. Y gynhadledd yw ein prif ddigwyddiad, gan ddod â thros 300 o gynrychiolwyr yn cynrychioli uwch reolwyr y GIG, llywodraeth leol, y trydydd sector a phartneriaid masnachol ynghyd. Rhoddodd ystod eang o siaradwyr ysbrydoledig a gwybodus eu safbwyntiau ar reoli newid a chreu gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys areithiau difyr a gwybodus gan y seicolegydd cymdeithasol, Laurie Taylor a Phrif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru, Roger Lewis ymysg yr uchafbwyntiau.

Uchafbwyntiau Eraill

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom hefyd:

- Estyn ein gwasanaethau cymorth corfforaethol, gan ein galluogi i roi hyd yn oed fwy o help ymarferol i'n haelodau, gan gryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau a rhannu arfer gorau.
- Parhau i dderbyn adborth cadarnhaol ar ein gwasanaethau rheolaidd - ein crynodeb gwleidyddol o'r Cynulliad Cenedlaethol, Bay Watch, ein crynodebau wythnosol o'r wasg, a Reportage, diweddariad chwarterol o Ewrop.
- Darparu cyhoeddiadau yn canolbwyntio ar fater cyfoes rheoli newid - adolygiadau llenyddiaeth o waith ysgrifenwyr byd-enwog fel John Kotter a William Bridges, gan roi trosolwg cryno o ddoethineb arbenigwyr o bob rhan o'r byd.
- Casglu barn aelodau a ffurfio ymateb ar y cyd i holl brif ymgynghoriadau'r flwyddyn, yn cynnwys dyfodol Cynghorau Iechyd Cymuned, sefydliad iechyd cyhoeddus unedig, iechyd gwledig a strategaeth nyrsio gymunedol i Gymru.
- Rhoi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad i hawliau cleifion mewn gofal iechyd traws-ffiniol. Fe wnaethom hefyd gydlynu nifer o sesiynau tystiolaeth pwyllgor ar gyfer ymholiadau gan y pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda chlercod y pwyllgor i drafod y trefniadau ar gyfer sesiynau tystiolaeth y pwyllgor, a bydd yr agenda cynyddol yma'n ffurfio rhan bwysig o'n rhaglen waith yn y flwyddyn i ddod.
- Hysbysu aelodau am ddatblygiadau polisi y tu allan i Gymru – fe wnaethom ysgrifennu crynodebau o'r strategaeth dementia ar gyfer Lloegr a Chyfansoddiad y GIG i hysbysu aelodau ar yr effeithiau posibl ar Gymru.
- Cyhoeddi papur gwybodaeth ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr etholedig yng Nghymru ar bwysigrwydd rheolaeth, yn rhoi sylw i werth a rheidrwydd rheolaeth dda yn y GIG, a rhoi ffeithiau allweddol yn tanlinellu pa mor isel yw costau rheolaeth yng Nghymru.
- Cael ein dyfynnu sawl gwaith gan Aelodau Cynulliad mewn dadleuon yn y Cynulliad, er enghraifft, ein barn y dylai ailstrwythuro arwain yn y pen draw at integreiddiad agosach

byth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

- Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer newyddiadurwyr yn ceisio barn awdurdodol gan reolwyr y GIG yng Nghymru. Rhoddwn wybodaeth yn rheolaidd i gysylltiadau allweddol i sicrhau bod sylw yn gytbwys a gwybodus ac yn arwain at gynyddu hyder y cyhoedd yn rheolaeth y GIG.

- Rhoi sylwadau cyhoeddus yn y wasg a'r cyfryngau ar bynciau'n cynnwys holl sbectrwm materion GIG, yn cynnwys diogelwch cleifion, ail-gydbwyso gofal ysbyty, ffioedd ategol a Chyfarwyddeb Amser Gweithio Ewrop. Mewn cyfweliad manwl gyda HSJ, fe wnaethom ddisgrifio effeithio datganoli ar gyflenwi gofal iechyd yng Nghymru.

- Parhau i ysgogi trafodaeth ymysg y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol gyda'n colofn reolaidd yn y Western Mail. Eleni, rhoddwyd sylw i bynciau mor amrywiol â diwygio iechyd meddwl, ystâd y GIG, diwygio gofal iechyd yn yr Unol Daleithiau, diogelwch cleifion a chofnodion iechyd digidol.

- Hwyluso cyfleoedd ffilmio a chyfweliadau i ddangos gwaith da ein haelodau, megis canolfan iechyd a gofal cymdeithasol yn Nhrefynwy a chynllun triniaeth cartref yng Nghaerfyrddin.

- Diweddaru ein gwefan yn fwy aml nag erioed o'r blaen. Mae ein holl gyhoeddiadau, manylion digwyddiadau, sylwadau yn y wasg a cholofnau ar gael i'w lawrlwytho. Mae adran cysylltiadau cynhwysfawr yn cysylltu gyda ffynonellau gwybodaeth bellach a datblygiadau polisi iechyd ledled Cymru a thu hwnt.

- Cynnal digwyddiad am ddim i glywed gwersi o ddiwygio iechyd yn Seland Newydd. Siaradodd Chris Clarke, y Prif Swyddog Gweithredol a arweiniodd ddiwygiadau mewn gofal iechyd sylfaenol yn Seland Newydd, am rai o'r heriau y mae'n credu sydd i ddod i GIG Cymru.

- Cydlynu a datblygu polisïau gweithlu Cymru-gyfan ar feysydd megis cysylltiadau staff a materion disgyblaeth, cwynion, salwch ac absenoldeb.

- Cynrychioli Cymru yng Nghyngor Staff GIG y Deyrnas Unedig gan sicrhau y caiff diddordebau Cymru eu lleisio ac y gwrandewir arnynt wrth ddatblygu telerau ac amodau'r GIG ar draws y Deyrnas Unedig.

- Ymuno â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Galwedigaethol Cymru'n Un i gynrychioli barn cyflogwyr GIG yng Nghymru.

- Cefnogi datblygiad gweithlu meddygol drwy aelodaeth grŵp adolygu Meddygon Iau Cymru-gyfan, a chydlynu sylwadau o Gymru ar yr adolygiad arfaethedig ar draws y Deyrnas Unedig o gontract Meddygon Iau.

- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen waith fel aelod o Fwrdd Cyflawni Ailddilysu GMC Cymru ac yn awr yn cydlynu ffrydiau gwaith ar werthuso ac ail-gyfryngu.

- Cynrychioli aelodau ar y grwpiau dilynol drwy gydol y flwyddyn:

1. Grŵp Datblygu Cynaliadwy Iechyd
2. Grŵp Cyfeirio Grant Cydweithio
3. Rhwydwaith Swyddogion Cyfathrebu Awdurdodau Lleol a GIG
4. Grŵp Rhanddeiliaid Bwrdd Gwasanaeth Lleol
5. Bwrdd Cyflawni Creu'r Cysylltiadau
6. Bwrdd Ymgynghorol Cyfranogiad Cymru
7. Grŵp Ymgynghorol Talu am Ofal
8. Grŵp Ffocws Cyfathrebu Arolwg Staff
9. Grŵp Cyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Weithwyr Mudol
10. Rhwydwaith Datblygu Tramor Llywodraeth Cynulliad Cymru
11. Grŵp Cyfeirio Concordat Cymru
12. Grŵp Cysylltiadau Iechyd Cymru o blaid Affrica
13. Grŵp Craidd Rhwydwaith Cymru Iechyd Meddwl mewn Gofal Sylfaenol
14. Fforwm a Phwyllgor Busnes Partneriaeth Cymru
15. Bwrdd Ymgynghori WORD
16. Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Galwedigaethol
17. Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol ac Arweinyddiaeth Cymru'n Un
18. Cyngor Staff GIG y Deyrnas Unedig
19. Is-grwpiau Datblygu Polisi
20. Cyfarfod Arweinwyr Cyflog 4 Cenedl GIG
21. Cyd-bwyllgor Contract Ymgynghorwyr Cymru
22. Bwrdd Cyflawni Ail-ddilysu Cymru
23. Grŵp Adolygu Meddygon Iau Cymru-gyfan
24. Grŵp Cyfeirio Prosiect Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau y Deyrnas Unedig

THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

Unit 3, Waterton Park
Bridgend CF31 3PH

Tel 01656 643800
E-mail info@welshconfed.org

www.welshconfed.org